## Tîm Dyslecsia

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Dysgraffia

Rydym ar y Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld cynghorwr:

**Ffôn: 01248 383620 / 01248 382032**
**E-bost:** gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/dyslexia.php.cy

**Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau**

"Cyflwr niwrolegol yw **Dysgraffia** sy'n tarfu ar wybodaeth rhwng yr ymennydd a sgiliau echddygol mân y llaw."[1] Gan fod proses ysgrifennu'n gofyn am set gymhleth o sgiliau prosesu gwybodaeth yn ogystal â sgiliau echddygol, gall ysgrifennu â llaw fod yn dipyn o her yn aml.

Mae'r anawsterau'n gysylltiedig â dysgraffia'n cynnwys:

- Bwlch rhwng syniadau ysgrifenedig a dealltwriaeth a ddangosir drwy leferydd – mynegiant ysgrifenedig.
- Cyflawni tasgau echddygol mân, yn cynnwys llawysgrifen ddarllenadwy.
- Ysgrifennu'n gywir - gall troi llythrennau/rhifau o chwith, a chamsillafu weithiau, fod yn nodwedd o'r llawysgrifen.
- Poen wrth ysgrifennu â llaw – gall fynd yn waeth dan straen.

"Rydw i'n 30 oed ac mae gen i lawysgrifen fel plentyn 5 oed! . . . Mae gen i gywilydd ysgrifennu o flaen pobl o hyd. Yn yr ysgol, ar ôl i mi gael defnyddio gliniadur yn y dosbarth ac mewn profion, roedd pawb yn fy nerbyn i am yr hyn oeddwn i, mi ddaeth fy mywyd GYMAINT yn haws."[2]

Dylai myfyrwyr weld y gelli'r defnyddio gwahanol strategaethau penodol i oresgyn unrhyw broblemau dysgraffig.

[1] http://www.ed.ac.uk: edrychwyd ar y safle 30 Gorffennaf 2014

[2] http://community.tes.co.uk/tes_special_educational_needs/f/59/t/493813.aspx 2011